astudiaeth achos

Carmarthenshire CONNECT

CYSWLLT Sir Gaerfyrddin

Dogfennu Cynnydd
Prosiect Uchela
Gan Ddefnyddio TGCh

Astudiaeth Achos ar
Gael y Gymuned i Ddefnyddio TGCh

Ran Foster-Mason
Swyddog Maes TGCh

Crynodeb

Mae'r astudiaeth achos hon yn amlinellu'r defnydd o dechnolegau cyfrwng digidol wrth ddogfennu prosiect ieuenctid saith mis. Fe fu Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn helpu pobl ifanc i ddefnyddio camerâu llonydd a fideo digidol cost isel i gofnodi gweithgarwch y prosiect ac i gofnodi ymatebion ei gilydd trwy gydol y broses.

Cefndir

Roedd Prosiect Uchela yn brosiect cerddorol ar gyfer pobl ifanc ac roedd ar waith am saith mis. Roedd yn rhoi sylw i yfed swmpus o dan oedran, ac effeithiau a chanlyniadau'r fath ymddygiad. Roedd y prosiect dwyieithog arloesol hwn, a arweiniwyd gan bobl ifanc, yn cael ei rhedeg mewn partneriaeth gan Gymunedau yn Gyntaf Dyffryn Aman Uchaf, Cwmni Theatr Mess Up The Mess, Menter Bro Dinefwr a Stiwdios Cynhyrchu Tinopolis.

Roedd y prosiect yn cynnwys pobl ifanc o Ddyffryn Aman Uchaf yn y broses o greu fideo cerddorol ar gyfer y canwr lleol, Tom Hamer, a'i gan 'Higher-Uchela'. Fe fu'r rheiny a gymerodd rhan yn y prosiect yn gweithio ochr yn ochr â'r cwmni cynhyrchu Tinopolis, sydd â'i brif swyddfa yn Llanelli, gan ddysgu am y broses o gynllunio, ffilmio a golygu fideo cerddorol. Roedd y ffilm wedi ei lleoli mewn parti mewn tŷ, a'r bobl ifanc a gymerodd rhan yn y prosiect oedd sêr y fideo.

Diben Cynnwys y Gymuned

Fe fu Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn helpu'r rheiny a oedd yn cymryd rhan yn y prosiect i ddogfennu eu profiadau wrth gymryd rhan yn y prosiect, ac adfyfyrio arnynt, gan ddefnyddio camerâu ffon symudol, camerâu digidol a chamerâu fideo digidol 'Busbi'. Yna, gosodwyd y cyfryngau a gasglwyd ar flog Cyswllt Sir Gaerfyrddin a blog a grëwyd o'r newydd ar gyfer Prosiect Uchela, gan ennyn diddordeb y rheiny a gymerodd rhan ym manteision blogio.

Y Broses o Gynnwys y Gymuned

Fe ddaeth Cyswllt Sir Gaerfyrddin i gyswllt â Phrosiect Uchela mewn cyfarfodydd cynllunio cynnar, ble croesawodd y rheiny a oedd yn rhan o'r prosiect y cysyniad o ddogfennu cynnydd Prosiect Uchela trwy ffotograffau a fideos a'u cyhoeddi ar flog ar gyfer y prosiect.

Casglwyd is-grŵp at ei gilydd i sefydlu'r blog a chynllunio logo a hunaniaeth ar gyfer y prosiect. Fe fu Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn cwrdd â'r grŵp yn ystafell TG y llyfrgell leol, ble sefydlwyd y blog gan ddefnyddio system 'Blogger' Google. Fe gyhoeddodd yr is-grŵp yr wybodaeth gyntaf ar y blog, gan roi ychydig o hanes y prosiect. Yna, fe gafodd bob un a oedd yn rhan o'r prosiect e-bost yn eu gwahodd i gyfrannu at y blog.

O'r chwith i'r dde: Sefydlu blog Uchela; delwedd sgrin o flog Uchela; un o'r camerâu fideo digidol 'Busbi' a ddefnyddiwyd gan y grŵp

Fe gafodd Cyswllt Sir Gaerfyrddin y cyfranogwyr i ddefnyddio technoleg camerâu digidol yn ystod chwech o sesiynau'r prosiect, a benthycwyd offer i'r cyfranogwyr ar gyfer un sesiwn. Cymerwyd ffotograffau a fideos yn ystod taith y prosiect o amgylch stiwdios Tinopolis, cyfarfodydd cynllunio, sesiynau ffilmio, sesiynau trosleisio a'r digwyddiad lansio.

Fe gafodd Cyswllt Sir Gaerfyrddin y cyfranogwyr i ddefnyddio technoleg camera ffôn symudol a chamera digidol drwy eu hannog i gymryd ffotograffau o weithgarwch y prosiect. Er mwyn cael y cyfranogwyr i ddefnyddio technoleg camcordor digidol, gofynnwyd iddynt recordio fideos o'i gilydd yn adfyfyrio ar eu profiadau ac yn eu crynhoi. Crëwyd cardiau cwestiwn ar gyfer rhai sesiynau fel bod y cyfranogwyr yn gallu recordio fideos yn gyflym ac yn hwylus yn ystod yr amserlen ffilmio brysur.

Yna, edrychwyd dros y cyfryngau a gofnodwyd, eu sortio a'u gosod ar flog Cyswllt Sir Gaerfyrddin a Phrosiect Uchela. Hefyd, gwahoddwyd cyfranogwyr y prosiect a oedd â chamera ar eu ffôn symudol i gyhoeddi'r cyfryngau a gofnodwyd ar y blog yn annibynnol.

Roedd y broses hon o les i gyfranogwyr mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, fe fu'r cyfranogwyr yn defnyddio'r dechnoleg camera digidol a chamcordor. Yn ail, daeth y cyfranogwyr i ddeall sut allent ddefnyddio'r dechnoleg hon i wella prosiect cymunedol. Yn drydydd, roedd y broses o recordio fideos yn golygu bod yn rhaid i gyfranogwyr adfyfyrio ar eu profiadau a'r hyn yr oedden nhw wedi'i ddysgu. Efallai na fyddai'r broses adfyfyrio hon wedi digwydd fel arall.

Roedd gan y blog o feddyliau, ffotograffau a fideos cyfranogwyr y prosiect beth manteision i Brosiect Uchela. Fe gymerodd y prosiect saith mis i'w gwblhau - roedd y blog yn gofnod da o'r gweithgarwch a oedd wedi cymryd lle dros y cyfnod hwn ac yn gyfle i gyfranogwyr gyfathrebu gyda'i gilydd rhwng sesiynau. Roedd cael presenoldeb ar-lein hefyd yn gyfle i'r prosiect rannu gwybodaeth gyda chynulleidfa llawer ehangach, ac felly roedd yn offeryn hyrwyddo da. Roedd y fideos yn benodol yn ffynhonnell dda i'r mudiadau a oedd yn trosglwyddo'r prosiect, ar gyfer adborth eu cyfranogwyr. Maen nhw'n rhoi mewnwelediad efallai na fyddai wedi bod ar gael fel arall.

O'r chwith i'r dde: ffilmio'r fideo cerddorol; gwisgo fel meddyg ar gyfer golygfa ysbyty'r fideo; yn ystod y digwyddiad lansio

Manteision ac Anfanteision

Manteision

- Mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn dysgu am gamcordors a chamerâu digidol
- Mae'r blog yn gofnod o brofiadau cyfranogwyr y prosiect a chynnydd a datblygiad y prosiect yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r cyfranogwyr weld drostyn nhw'u hunain faint maen nhw wedi'i wneud
- Roedd y blog yn cynnig llwyfan i'r holl gyfranogwyr i rannu eu meddyliau gyda chyd-gyfranogwyr yn eu hamser eu hunain
- Gan y recordiwyd fideos o brofiadau'r cyfranogwyr *trwy gydol* y prosiect roedd yna adborth parhaus, yn hytrach na dim ond gwerthusiad cyffredinol ar ddiwedd y prosiect
- Wrth ffilmio'r fideos roedd angen i'r cyfranogwyr adfyfyrio ar eu profiadau. Roedd yr adfyfyrio hwn yn gwneud i gyfranogwyr feddwl mwy am eu rhan ym Mhrosiect Uchela ac felly tanlinellwyd canlyniadau positif eu profiadau.
- Mae defnyddio'r we yn galluogi'r prosiect i rannu gwybodaeth gyda chynulleidfa ehangach a rhannu newyddion yn hawdd gyda'r gymuned leol

Anfanteision

- Mae gwirio, trefnu a chyhoeddi'r cyfryngau a gofnodwyd ar y we yn cymryd amser

Cyfeiriadau

Gweler blog Prosiect Uchela yn http://higheruchela.blogspot.com/

Gweler newyddion Prosiect Uchela ar flog Cyswllt Sir Gaerfyrddin yn

http://www.carmsconnect.org.uk/labels/Higher%20Uchela.html